# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD LLUN, 1AF GORFFENNAF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Swyddfa Llyfni, Pencadlys, Caernarfon, Cyngor Gwynedd ac ar Teams**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2024)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Beca Brown (Addysg)
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR

Mr Dafydd Gibbard

## PENNAETH CYLLID

Mr Dewi A Morgan

## PENAETHIAID UWCHRADD

| | |
|---|---|
| Sedd Wag | Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog |
| Mr Aled Williams – Ysgol Ardudwy | Mr Arwyn Williams – Ysgol Brynrefail |

## PENAETHIAID CYNRADD

| | |
|---|---|
| Sedd Wag | Mr Richard Derwyn Jones – Ysgol Chwilog |
| Sedd Wag | Sedd Wag |
| Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau | Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan |

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Clive Thomas – Ysgol Syr Hugh Owen

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Sedd Wag
Mr Brian Jones – Ysgol Llanllechid

Meirionnydd
Ms Carys Meleri Fowles – Ysgol Penybryn & Ysgol Tywyn
Mr Eifion Roberts – Ysgol Godre'r Berwyn

Dwyfor
Cynghorydd Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Cynghorydd Gwynfor Owen, Ysgol Hafod Lon

## ESGOBAETH

Sedd Wag

## YSGOLION EGLWYS

Ms Joanna Thomas– Ysgol y Faenol

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Ms Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol : Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad
Ms Debbie Anne Williams Jones, Pennaeth Cynorthwyol : Gwasanaethau Corfforaethol
Ms Kathy Bell, Cyfrifydd Grwp – Ysgolion

Mr Rhys M Glyn, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd
Ms Eleri Davies, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Sedd Wag - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 8

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2023.
(Copi ynghlwm)

## 7. MATERION YN CODI O'R COFNODION

I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion nad ydynt yn ymddangos ar yr Agenda.

## 8. AELODAETH Y FFORWM

I dderbyn diweddariad llafar

## 9. CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

I dderbyn diweddariad llafar gan Debbie Anne Jones, Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol

## 10. FFORMIWLA CYLLIDO YSGOLION UWCHRADD - ADOLYGU ARLWYAETH A GLANHAU

I dderbyn diweddariad llafar gan Kathy Bell, Cyfrifydd Grŵp – Ysgolion

## 11. TRAFODAETHAU TORIADAU ARIANNOL

Cychwyn Trafodaethau Toriadau – Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg

## 12. EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

I nodi unrhyw eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf

## 13. UNRHYW FATER ARALL

I godi unrhyw fater perthnasol

## 14. DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

I benderfynu ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 17.07.2023

**Yn bresennol:** Richard Jones (Ysgol Chwilog) (Cadeirydd)

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

**Pennaeth Cyllid:** Dewi A Morgan

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Neil Foden (Ysgol Friars), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) ac Aled Williams (Ysgol Ardudwy), Arwyn Williams (Ysgol Brynrefail)

Cynradd: -

**Llywodraethwyr:** Y Cynghorydd Gwynfor Owen (Dwyfor), Y Cynghorydd Gwilym Jones (Dwyfor) a Carys Fowles (Meirionnydd)

**Ysgolion Eglwys:** Joanna Thomas (Ysgol y Faenol)

**Ysgolion Arbennig:** Neb yn bresennol

**Esgobaeth:** Neb yn bresennol

**Cynrychiolydd yr Undeb:** Neb yn bresennol

**Sylwedydd:** Neb yn bresennol

**Swyddogion:** Garem P Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg)
Kathy W Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion)
Dr Diane Pritchard Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Gwasanaethau Addysg)
Einir Davies (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol Mr Richard Jones, Pennaeth Ysgol Chwilog yn Gadeirydd y Fforwm am 2023/2024.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol Mr Dylan Minnice, Ysgol Botwnnog yn Is-Gadeirydd y Fforwm am 2023/2024.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Brian Jones (Llywodraethwyr Arfon), Edward Bleddyn

Jones (Llywodraethwyr, Arfon), Ms Eleri Moss, Mrs Donna Roberts (Ysgolion Arbennig), Mr Eifion Roberts (Llywodraethwyr Meirionnydd), Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol) a Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2023 fel rhai cywir, gan dderbyn diweddariad fel y nodir isod.

**7. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eitem 7 - Canolfannau Iaith - cadarnhawyd nad oedd diweddariad ar gael ar hyn o bryd. Amlinellwyd y trefniant hanesyddol o dderbyn y grant a'r bwriad i ail-drafod y trefniant gyda GwE.

Eitem 9 - Integreiddio a Dull Dyrannu i Ysgolion - cadarnhawyd nad oedd diweddariad ar gael ar hyn o bryd. Cadarnhawyd y byddai trefniadau yn rhy hwyr i'w gweithredu erbyn Medi 2023, felly bod angen edrych ar y tymor canlynol. Cadarnhawyd bod y gyllideb integreiddio, a'r dull o rannu ar sail oriau plant, angen sylw pellach.

**8. BALANSAU YSGOLION 31 MAWRTH 2023**

Cyfeiriodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion at y papur oedd yn manylu balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2023. Cadarnhaodd bod y sefyllfa yn debycach i'r arfer erbyn hyn, gyda lleihad o £4.8 miliwn. Nodwyd bod tair Ysgol mewn diffyg a bod y gwaith o adolygu y balansau yn cymryd lle nawr, er bod disgwyl lleihad pellach erbyn diwedd y flwyddyn.

Codwyd y pryder ynglŷn â sefyllfa y grantiau hwyr, gan gadarnhau bod pum grant hwyr wedi ei derbyn gan ysgolion oedd gyfystyr a £96,000, ac nad oedd yn sefyllfa i'w chroesawu. Cyfeiriwyd at sefyllfaoedd o gario drosodd mwy na £700,000, ond bod rhaid cynllunio gyda ffigwr o £230,000 o dan ystyriaeth. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod balansau mawr yn mynd drosodd.

Cwestiynwyd faint o ysgolion sydd yn debyg o fod mewn twll cyllidol ar ddiwedd 2024 a chadarnhawyd bod llawer o ysgolion wedi penodi dros dro trwy ddefnyddio balansau eleni ac o ganlyniad bydd y lefelau wedi gostwng yn sylweddol erbyn mis Medi.

Nodwyd y pryder, gyda y swyddi dros dro yn dod i ben, bod y plant yn parhau i fod angen cefnogaeth a'i bod yn anodd iawn ei cefnogi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. GRANTIAU YSGOLION 2023/2024**

Cadarnhawyd y bydd papur yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf gan y bydd modd cadarnhau bryd hynny y grantiau cyflymu dysgu, datblygu disgyblion (PDG) a datblygu plant.

Cadarnhawyd y bydd Bwrdd GwE yn cyfarfod i ystyried y Grant Consortia maes o law, ac y bydd cadarnhad yn cael ei rannu ar ddiwedd y tymor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.**

## 10. TAL ATHRAWON 2022/2023 A 2023/2024

Ymddiheurwyd gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion bod y papur yn hwyr yn cael ei ddosbarthu, ond gobeithiwyd bod y neges, ar fater cymhleth iawn, wedi cael ei roi drosodd mewn modd syml. Tywyswyd Aelodau y Fforwm drwy y papur, oedd wedi ei gynhyrchu mewn ymateb i gais o'r Grŵp Uwchradd, yn gofyn am eglurhad ar sut mae arian yn cyrraedd y Cyngor ac yn cael ei rannu.

Amlinellwyd y cefndir a arweiniodd at y sefyllfa, gan nodi y bu i Lywodraeth Cymru ddatgan codiad o 5%. Diwedd Mawrth cynigwyd 3% gan Lywodraeth Cymru, gyda chodiad pellach o 1.5% a 1.5% heb ei gyfuno fel cynnig cyflogau athrawon.

O ran Cyngor Gwynedd, cadarnhawyd bod 3% wedi ei glustnodi yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer codiadau athrawon, ond gan mai 5% oedd y codiad, bod bwlch amlwg. Mewn ymateb, bu i Gyngor Gwynedd ryddhau 1%, ac yn dilyn trafodaethau gyda CLILC, bu i Cyngor Gwynedd ymdrin â'r 1% arall.

O ran y 3%, bu i Lywodraeth Cymru ddatgan y byddent yn rhoi grant – hynny yw 1.5% am saith mis a 1.5% heb ei gyfuno am flwyddyn academaidd gyfan, sef £1.1 miliwn.

Cadarnhawyd, er mwyn cau y cyfrifon, rhaid oedd amcangyfrif y swm, ond roedd yr ymdeimlad nad oedd wedi bod yn ddigon i lenwi y bwlch.

Cadarnhawyd ymhellach bod y setliad ar sail data, gyda'r arian wedi cyrraedd Cyngor Gwynedd ac yna'r Cyngor yn penderfynu ar y dyraniad i ysgolion unigol ar sail fformiwla. Nodwyd bod bob ceiniog wedi ei thargedu ac yn cyrraedd ysgolion. £480,000 oedd y grant, sef 1.5% parhaol a £638,000 unwaith ac am byth, oedd yn grant llawn. Nodwyd bod elfen o grant Chweched Dosbarth hefyd. Adroddwyd bod y gêm yn newid ar bob cam a'i bod yn gymhleth iawn. Tynnwyd sylw at y sgil effeithiau, gan nodi er bod pawb yn derbyn bod rhaid cael ffordd i ddyrannu, bod y sefyllfa yn effeithio ar y staff sydd yn cael eu cyflogi gan Ysgolion, ac nid y staff sydd yn dysgu.

Cadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi dyrannu'r grant ar sail lefel staffio 'FTE' sydd yn y fformiwla ond bod sefyllfaoedd lle mae gwahaniaeth rhwng y nifer o staff sydd yn y fformiwla yma a faint sydd yn cael eu cyflogi. Ehangwyd ar hyn gan nodi bod y bwlch sylweddol oherwydd y fethodoleg. Holiwyd ymhellach am ffigwr ar gyfer costau staff dysgu a'r hyn mae Llywodraeth Cymru wedi ei ryddhau. Roedd Aelodau y Fforwm yn gytûn ei bod yn sefyllfa annheg iawn.

Nododd y Cadeirydd nad oedd y cynnydd yng nghyflogau staff ategol wedi ei gwrdd yn 2022/23, ac nad oedd penderfyniad wedi ei wneud ar godiadau hyd yma. Nododd y Rheolwr Cyllid bod canran uwch wedi ei glustnodi ar gyfer 2023/24, ond nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai yn ddigonol.

Codwyd y pryder bod rhai ysgolion a balansau i allu amsugno y sefyllfa, a chwestiynwyd a oes arian cyfatebol yn dod i Gymru? Cadarnhawyd mai mater i Lywodraeth Cymru yw hyn, ond nad oes rheidrwydd arnynt i wneud unrhyw beth.

Nododd un Aelod bod Llywodraeth San Steffan wedi cadarnhau beth oedd y codiad yn Lloegr, ond heb roi arian ar ei gyfer, oedd eto yn bryder gan na fyddai arian ychwanegol ("*consequential*") yn cyrraedd Cymru.

Cwestiynwyd sut bod ambell i Sefydliad yn cael sicrwydd am lefel eu cyllideb dros 2 i 3 blynedd. Nodwyd nad oes unrhyw sefydliad yn cael sicrwydd erbyn hyn - rhagolygon yn unig fyddai y rhain. Ehangwyd ar hyn gan gadarnhau nad oes modd rhoi sicrwydd i sefydliadau gan fod y ffigwr hwn yn ddibynnol ar y setliad.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod rhagolygon ariannol am y flwyddyn ariannol i ddod, ddim yn edrych yn dda o ran Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD : derbyn yr adroddiad a chael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.**

## 11. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Cyflwynwyd yr eitem gan y Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg. Cadarnhawyd bod ambell Gynllun wedi ei adolygu a bod rhai Cynlluniau ble derbyniwyd sylwadau ac o ganlyniad fe'i hail hystyriwyd. Cadarnhawyd bod y sefyllfa rhywbeth yn debyg i'r arfer, ond bod rhai ysgolion heb gysylltu i roi gwybod un ffordd neu'r llall.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 12. UNRHYW FATER ARALL

Fformat cyfarfodydd y dyfodol – 'roedd yr opsiwn i gyfarfod yn hybrid wedi ei gynnig i Aelodau y Fforwm ar gyfer y cyfarfod hwn, ac un yn unig oedd yn yr Ystafell Gyfarfod. Cwestiynwyd dymuniad aelodau y Fforwm ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

Nododd y Pennaeth Gwasanaeth bod manteision ac anfanteision i'r opsiynau - weithiau mae cyfarfod yn well wyneb i wyneb, ond mae gan rai unigolion cryn waith teithio i gyrraedd cyfarfod yng Nghaernarfon.

Cytunwyd i gynnig opsiwn hybrid ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, gan atgyfnerthu y neges bod yr opsiwn hybrid ar gael a bod y gofod ar gael.

Arolwg Estyn – cadarnhawyd y bydd Adroddiad Estyn yn cael ei chyhoeddi 20 Medi 2023 a bydd yn cael sylw yn y cyfarfod nesaf, fydd yn cael ei raglennu tuag at ddiwedd y tymor.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.35 y.h. a daeth i ben am 4.30 y.h..